Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers

Department for Environment, Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DRAFT

# Ymgynghoriad ar Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ar y cyd arfaethedig y Deyrnas Unedig ar gyfer stociau Dyfnforol a Phelagig Môr Iwerddon

Dyddiad: 08-06-2026

Fersiwn: Derfynol

# Cynnwys


Cynnwys ... 2
Trosolwg o'r Ymgynghoriad ... 3
Cyflwyniad ... 3
Diben yr ymgynghoriad hwn ... 4
Dogfennau ymgynghori ... 4
Cyfrinachedd ... 5
Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ... 7
Pam rydym yn cyhoeddi FMPau? ... 7
Beth yw FMPau? ... 7
Sut mae FMPau yn gweithio ... 7
Rheoli stociau Môr Iwerddon yn rhyngwladol ... 8
Pam FMP dyfnforol unigol ar gyfer Môr Iwerddon ... 8
Statws y stociau sydd dan sylw yn yr FMPau hyn ... 9
Themâu Cyffredin FMP ... 10
Polisïau a chamau gweithredu ar gyfer rheoli pysgodfeydd Môr Iwerddon ... 11
Stociau Dyfnforol ym Môr Iwerddon ... 12
Nodau polisi ... 12
FMP Pelagig Môr Iwerddon (Pennog) ... 13
Nodau polisi a chwestiynau ... 13
Gweithredu ... 14
Casgliad ... 15
Asesiadau Effaith ... 15
Asesiad Effaith Rheoleiddiol ... 15
Asesiad Amgylcheddol Strategol ... 16
Beth yw'r Adroddiad Amgylcheddol a sut y'i datblygwyd ... 16
Crynodeb o'r Adroddiadau Amgylcheddol ... 17
Adroddiad Amgylcheddol yr FMP Dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon ... 18
Adroddiad Amgylcheddol yr FMP Pelagig ar gyfer Môr Iwerddon ... 19
Beth fydd yn digwydd nesaf? ... 20
Sut i ymateb ... 20
Amseru a hyd yr ymgynghoriad hwn ... 21
Ymholiadau ... 21
Atodiad A – Cwestiynau Ymgynghori ... 22


DRAFT

# Trosolwg o'r Ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Mae stociau pysgod yn ased cyhoeddus, maen nhw'n rhan allweddol o'r ecosystem forol, ac maen nhw'n gallu darparu ffynhonnell bwysig o fwyd, yn ogystal â chyfrannu at gyfleoedd hamdden a masnachol. Fodd bynnag, mae'r stociau ym Môr Iwerddon yn ddarostyngedig i ystod o bwysau naturiol ac o wneuthuriad dyn, gan gynnwys gweithgarwch pysgota, y newid yn yr hinsawdd ac effeithiau datblygiadau morol eraill.

Mae buddion economaidd-gymdeithasol clir yn gysylltiedig â gweithgarwch pysgota, ond mae hefyd yn cyflwyno risgiau i stociau pysgod a'r amgylchedd morol ehangach. Mae risgiau o'r fath yn cynnwys effeithiau sgil-ddalfeydd dieisiau a difrod ffisegol i wely'r môr gan offer pysgota. Mae'n rhaid i reolaeth effeithiol ar bysgodfeydd gydbwyso'r effeithiau cadarnhaol a negyddol hyn. Mae cyfleoedd ar gyfer twf os rheolir ein diwydiannau pysgota a bwyd môr yn gynaliadwy, i gynnal ac adfer y stociau ym Môr Iwerddon a sicrhau bod cyfleoedd pysgota'n cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS), fel y'i diwygiwyd, yn amlinellu sut y bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd y Deyrnas Unedig (Defra[1], a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon[2]) yn paratoi a chyhoeddi 43 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) erbyn 2028. Bydd y cynlluniau'n dwyn y dystiolaeth ynglŷn â chyflwr y stociau ynghyd ac yn amlygu mesurau a chamau gweithredu sy'n angenrheidiol i wella'r sylfaen dystiolaeth a rheoli ein pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y polisïau mewn FMP yn amlinellu'r camau gweithredu tymor byr a'r weledigaeth tymor hwy ar gyfer rheoli'r bysgodfa. Mae'n rhaid i'r cynlluniau hefyd ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach perthnasol, gan gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a'r angen am asesiad amgylcheddol strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004.

Mae'r cynlluniau'n dwyn tystiolaeth ynghyd ynglŷn â chyflwr y stociau pysgod môr a physgod cregyn perthnasol ac yn amlygu polisïau a chamau gweithredu sy'n angenrheidiol i reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy. Mae FMPau yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer rheoli'r pysgodfeydd perthnasol yn ogystal â pholisïau a chamau gweithredu perthnasol y bwriedir iddynt helpu i wireddu'r weledigaeth honno. Mae'n rhaid i'r cynlluniau hefyd ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach perthnasol.

[1] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
[2] Llywodraeth Cymru

Mae FMPau yn darparu modd i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid â buddiant i ddatblygu a chyflawni rheolaeth effeithiol ar bysgodfeydd.

## Diben yr ymgynghoriad hwn

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio'ch sylwadau ar y polisïau a'r camau gweithredu a gynigir i reoli stociau dyfnforol a phelagig ym Môr Iwerddon.

Mae'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), sef yr awdurdod cydlynu ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a Defra, wedi datblygu'r FMPau ar y cyd canlynol ar gyfer y Deyrnas Unedig;

- FMP pelagig ar gyfer Môr Iwerddon sy'n ymdrin â'r stoc bennog yn nyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o Fôr Iwerddon, ac
- FMP dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon sy'n ymdrin â stociau penfras, hadog, gwyniad môr, lleden chwithig, lleden goch ac Unedau Swyddogaethol cimwch Norwy yn nyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o Fôr Iwerddon.

Rydym yn ymgynghori ar y ddau FMP hyn gyda'i gilydd. Mae hwn yn gyfle i helpu i ffurfio a dylanwadu ar reoli pysgodfeydd dyfnforol a phelagig ym Môr Iwerddon yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ychwanegu at yr ymgysylltiad blaenorol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

Mae'r asesiadau effaith ategol yn destun yr ymgynghoriad hwn, hefyd.

## Dogfennau ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y dogfennau canlynol;

- Dogfen ymgynghori (y ddogfen hon).
- FMP pelagig drafft ar gyfer dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o Fôr Iwerddon, fel sy'n ofynnol gan Atodlen 1, Rhan 3 Deddf Pysgodfeydd 2020; wedi'i baratoi gan DAERA.
- FMP dyfnforol drafft ar gyfer dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o Fôr Iwerddon, fel sy'n ofynnol gan Atodlen 1, Rhan 3 Deddf Pysgodfeydd 2020; wedi'i baratoi gan DAERA.
- Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft i ystyried effaith economaidd ddisgwyliedig yr FMPau ar y sector pysgota a busnesau cysylltiedig. Byddem yn croesawu tystiolaeth economaidd ychwanegol i ddiweddaru'r asesiad hwn.

DRAFT

- Adroddiadau Amgylcheddol drafft ar gyfer pob FMP – mae’r rhain yn ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol y polisïau a’r camau gweithredu. Fe’u cynhaliwyd fel sy’n ofynnol gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau SEA 2004) yng Nghymru a Lloegr, a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Gogledd Iwerddon) 2004 ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae’r cwestiynau wedi’u hamlygu drwy gydol y ddogfen ymgynghori hon ac fe’u cesglir ynghyd yn **Atodiad A.**

Mae’r ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i’r canlynol:

- Unigolion, grwpiau, neu fusnesau sy’n ymwneud â’r sectorau pysgota, bwyd môr, neu ddyframaethu, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu fusnesau o’r Deyrnas Unedig neu o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig sy’n pysgota yn nyfroedd y Deyrnas Unedig ac, yn arbennig, ym Môr Iwerddon,
- Unigolion, grwpiau neu fusnesau eraill sy’n defnyddio’r môr, er enghraifft diwydiannau morol fel ynni adnewyddadwy alltraeth a chyrff hwylio, a
- Grwpiau buddiant cenedlaethol a lleol fel sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a hamdden, a ffederasiynau diwydiant.

## Cyfrinachedd

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i’r cyhoedd gael at unrhyw wybodaeth a ddelir gan awdurdod cyhoeddus – sef yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yn yr achos hwn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir wrth ymateb i’r ymgynghoriad hwn.

Bydd DAERA yn cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Ni all DAERA ystyried yn ddiofyn fod gwybodaeth a gyflenwir iddi wrth ymateb i ymgynghoriad yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mae’n gyfrifol am benderfynu a ddylai unrhyw wybodaeth a ddarparwch wrth ymateb i ymgynghoriad, gan gynnwys gwybodaeth am eich hunaniaeth, fod yn gyhoeddus neu gael ei thrin yn gyfrinachol. Os nad ydych eisiau i wybodaeth am eich hunaniaeth fod yn gyhoeddus, dylech gynnwys esboniad yn eich ymateb. Sylwch na ellir gwarantu cyfrinachedd, heblaw mewn amgylchiadau penodol iawn. Os yw’ch cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, ni fydd yn cyfrif fel cais am gyfrinachedd.

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn, bydd DAERA yn prosesu’ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae hyn yn golygu na fydd eich gwybodaeth

DRAFT

bersonol yn cael ei datgelu i drydydd parti os byddwch yn gofyn am gyfrinachedd. I gael rhagor o wybodaeth am gyfrinachedd ymatebion, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler ei gwefan yn [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)).

DRAFT

# Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

## Pam rydym yn cyhoeddi FMPau?

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y ddarpariaeth i baratoi a chyhoeddi FMPau. Bwriedir i FMPau helpu i warchod stociau pysgod a, lle bo angen, adfer stociau pysgod. Bydd hyn, yn ei dro, yn cefnogi diwydiant pysgota cynaliadwy ac yn diogelu'r amgylchedd. Mae'r JFS yn rhestru 43 FMP arfaethedig sydd wedi'u teilwra i stociau a lleoliadau penodol, gyda'r nod o ddiwygio ac ailddiffinio rheoli pysgodfeydd domestig.

## Beth yw FMPau?

Mae FMPau yn gynlluniau gweithredu wedi'u seilio ar dystiolaeth a luniwyd i gyflawni pysgodfeydd cynaliadwy. Mae pob FMP yn amlinellu camau gweithredu tymor byr a gweledigaethau tymor hir, gyda'r nod o adfer neu gynnal stociau pysgod ar lefelau cynaliadwy. Mae'r cynlluniau hyn yn berthnasol i bysgota masnachol a hamdden, gan fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol ehangach. Lle bo'n briodol, fe allai FMPau nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion ehangach a amlygwyd yn ystod y broses o'u datblygu, fel ystyriaethau amgylcheddol neu gymdeithasol ac economaidd.

## Sut mae FMPau yn gweithio

Mae rheoli pysgodfeydd yn gymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli, a reolir ar hyn o bryd trwy fframwaith o reoliadau, is-ddeddfau, amodau trwydded a mesurau gwirfoddol. Fe allai FMPau arwain at newidiadau i'r mesurau rheoli hyn.

Mae gofyniad cyfreithiol ar Awdurdodau Pysgodfeydd Cenedlaethol (sef Llywodraeth yr Alban, Defra, y Sefydliad Rheoli Morol (MMO), DAERA a Llywodraeth Cymru yn y Deyrnas Unedig) i weithredu yn unol â'r polisïau a amlinellir yn yr FMPau a byddant yn gweithio gydag ystod o sefydliadau a rhanddeiliaid perthnasol i weithredu'r camau gweithredu a gynhwysir ynddynt.

Mae FMPau yn amlygu ystod o bolisïau a chamau gweithredu. Bwriedir i FMPau fod yn addasol a datblygu dros amser wrth i fesurau gael eu gweithredu a thystiolaeth ychwanegol gael ei chasglu. Er bod pob FMP yn canolbwyntio ar stoc(iau) penodol,

dylid hefyd eu hystyried mewn modd cyfannol, o ystyried y cysylltiadau rhwng gwahanol bysgodfeydd a'r rhyngweithio rhwng stociau.

Cynlluniau hirdymor yw'r FMPau y mae'n rhaid eu hadolygu ac, os oes angen, eu diwygio unwaith bob chwe blynedd, o leiaf. O dan Adran 8(1) y Ddeddf, yn ogystal â'r gofyniad i adolygu FMPau bob chwe blynedd o leiaf, gellir disodli neu ddiwygio FMP unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad, sy'n golygu y gellir cadw'r FMP yn gyfredol.

Bwriedir i gamau gweithredu FMP gael eu gweithredu ar hyd oes yr FMP. Felly, fe allai gymryd peth amser i unrhyw fuddion ddod i'r amlwg yn llawn o ran gwella cynaliadwyedd stociau a physgodfeydd. Dylai'r camau gweithredu yn yr FMPau gysylltu ag un o amcanion y Ddeddf Pysgodfeydd. Amlinellir y broses datblygu ac adolygu benodol ym mhob FMP unigol.

## Rheoli stociau Môr Iwerddon yn rhyngwladol

Nid dim ond y Deyrnas Unedig sy'n rheoli ac yn manteisio ar stociau pysgod ym Môr Iwerddon. Er bod gan y Deyrnas Unedig ymreolaeth reoleiddiol dros ei physgodfeydd, mae wedi ymrwymo i weithio gyda'r Undeb Ewropeaidd a Gwladwriaethau Arfordirol perthnasol i sicrhau bod adnoddau a rennir yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac i gynnal perthnasoedd rhyngwladol cryf, cadarnhaol.

Mae trafodaethau rhyngwladol ynglŷn â physgodfeydd a gosod cyfleoedd pysgota cytunedig yn allweddol i helpu i reoli, cynnal, ac adfer stociau pysgod. Mae'r holl stociau yn y ddau FMP hyn yn cael eu rheoli ar y cyd, a phennir cyfleoedd pysgota trwy drafodaethau rhyngwladol, yn y pen draw. Yn ei thrafodaethau blynyddol gyda'r Undeb Ewropeaidd, mae'r Deyrnas Unedig yn ceisio cyflawni amcanion y Ddeddf neu gyfrannu at eu cyflawni. Mae'n rhaid i'r polisïau a'r camau gweithredu yn yr FMPau hefyd adlewyrchu a pharchu'r trefniadau rheoli rhyngwladol hyn.

Bydd mesurau rheoleiddiol, sy'n deillio o gamau rheoli'r FMP, yn berthnasol i'r holl longau sy'n pysgota yn nyfroedd perthnasol y Deyrnas Unedig. Bydd y Deyrnas Unedig yn rhoi gwybod i'r Undeb Ewropeaidd am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar longau'r Undeb Ewropeaidd.

## Pam FMP dyfnforol unigol ar gyfer Môr Iwerddon

Er bod pysgodfeydd dyfnforol yn tueddu i dargedu un rhywogaeth yn benodol, mae amser a lleoliad y bysgodfa'n golygu bod pysgodfeydd gwely'r môr yn aml yn gymhleth o ganlyniad i natur gymysg y pysgodfeydd. Ar gyfer yr FMP dyfnforol ar

gyfer Môr Iwerddon, y stociau sydd wedi'u cynnwys yw'r prif rywogaethau dyfnforol, sy'n cael eu dal fel rhywogaeth wedi'i thargedu neu fel sgil-ddalfa gysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o wir am y bysgodfa cimwch Norwy, sef y bysgodfa fwyaf o ran nifer y llongau a glaniadau, y mae'n bosibl y gallai ddal yr holl rywogaethau eraill yn yr FMP.

Ni fanteisir ar yr holl stociau i'r un graddau (pwysau pysgota), ac nid oes ganddynt i gyd yr un gofynion cadwraeth a gwarchod, ond mae llawer yn gysylltiedig o ganlyniad i natur gymysg y pysgodfeydd ac yn profi effeithiau'r newidiadau ecolegol parhaus ym Môr Iwerddon. Am y rheswm hwn, cyfarwyddodd y JFS FMP unigol ar gyfer stociau penfras, gwyniad môr, hadog, lleden chwithig, lleden goch a chimwch Norwy.

## Statws y stociau sydd dan sylw yn yr FMPau hyn

Bydd iechyd stociau pysgod yn newid dros amser, ac mae'r Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) yn darparu cyngor wedi'i ddiweddaru, fel mater o drefn, ynglŷn â'r stociau sy'n cael eu hystyried yma. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn defnyddio'r cyngor hwn ac yn dilyn yr egwyddorion a amlinellir yn Fframwaith Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig[3] , gan gynnwys yr egwyddorion yn y JFS sy'n ymwneud â thrafodaethau rhyngwladol ar gyfer pennu cyfleoedd pysgota. Mae'n rhaid i gyfleoedd pysgota cimwch Norwy roi sylw dyladwy i ofynion cyfreithiol Cynllun Amlflwydd y Dyfroedd Gorllewinol (EUR 2019/472).[4]

Mae'n bwysig nodi bod yr FMPau hyn yn cael eu llunio yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. O ran llawer o stociau Môr Iwerddon, y cyngor ar gyfer 2026 oedd gostyngiad mewn dalfeydd, a achosodd rywfaint o bryder ynglŷn â datblygiad hirdymor y stociau. Am y rheswm hwn, mae angen i FMPau fod yn hyblyg, a gallu mynd i'r afael ag amrywiadau tymor byr a sefyllfaoedd sy'n datblygu, ar yr un pryd â sicrhau cynnydd tuag at nodau tymor hwy.

Mae lefel y data sydd ar gael am stociau FMP yn amrywio, fel y'i categoreiddir gan ICES. Mae ICES yn categoreiddio stociau pysgod yn chwe grŵp (Categorïau 1 i 6) yn seiliedig ar swm ac ansawdd y data sydd ar gael, sy'n pennu'r math o asesiadau a chyngor gwyddonol a'u dibynadwyedd. Gellir amcangyfrif cyfeirbwyntiau cynnyrch cynaliadwy mwyaf (MSY) ar gyfer stociau sydd wedi'u dosbarthu'n ddata Categori 1 neu 2 ICES; gellir sefydlu MSY dirprwyol ar gyfer stociau data Categori 3 ICES.

---

[3]Mae'r Fframwaith Cyffredin Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd yn amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r polisïau ar gyfer rheoli pysgodfeydd a'r sector bwyd môr yn gynaliadwy yn y Deyrnas Unedig
4 Roedd y Cynllun Amlflwydd yn rhan o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a ddargadwyd ac sydd bellach, fel y'i diwygiwyd, yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig a gymathwyd.

Gallwn bennu'r MSY ar gyfer yr holl stociau heblaw am hadog. Cyn 2025, roedd hadog Môr Iwerddon yn destun asesiad Categori 1 ICES. Fodd bynnag, yn 2025, fe'i hisraddiwyd i Gyngor Dull Rhagofalus Categori 5 o ganlyniad i anghysondebau a amlygwyd yn y data mewnbwn asesu[5]. Ers i'r mater godi, mae ICES wedi amlygu bod angen ailwerthuso'r asesiad o'r stoc a'r data amdani yn fwy sylweddol, a bwriedir cynnal meincnod llawn yn ystod cylch 2027-28. Mae'n debygol y bydd y cyngor gwyddonol ar gyfer y stoc hon yn dilyn Dull Cyngor Rhagofalus ICES o hyd tra bod y materion sy'n sail i'r asesiad yn derbyn sylw. Cefnogir camau gweithredu i wella'r asesiad yn yr FMP.

O ganlyniad, y prif nod polisi yw cynnal neu wella'r holl stociau i lefel gynaliadwy. O ran stociau y mae angen eu hadfer, mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl trwy reoli'r bysgodfa yn unig, o ganlyniad i ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol, ac efallai y bydd yn bosibl dros gyfnod estynedig yn unig. Nid yw hyn yn golygu y gallwn roi gweithgarwch pysgota o'r neilltu; bydd angen i bwysau pysgota gael eu rheoli o hyd i ddarparu'r sail orau ar gyfer unrhyw adferiad posibl. Bydd yr FMP terfynol yn elwa o gyngor gwyddonol wedi'i ddiweddaru ar y stoc ar gyfer 2027 i lywio unrhyw fesurau penodol i stoc.

I grynhoi, mae'r FMPau ar y cyd ar gyfer Môr Iwerddon yn disgrifio mesurau rheoli a rheoliadau presennol, a'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu statws y stociau sydd dan sylw yn yr FMPau hyn yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Bydd yr FMPau yn sicrhau bod y stociau'n parhau i gael eu rheoli'n gynaliadwy uwchben lefelau biomas yn gyson â dull MSY. Mae'r cysylltiadau â pholisïau perthynol wedi cael eu hamlygu a'u trafod yn adrannau priodol yr FMPau.

## Themâu Cyffredin FMP

Mae pob FMP yn cynnwys yr adrannau cyffredin allweddol canlynol:

**Cefndir:** gwybodaeth am ardal yr FMP, y stociau sydd wedi'u cynnwys a'r pysgodfeydd allweddol.

**Asesiad stoc, MSY ac asesiad o dystiolaeth:** sy'n rhoi gwybodaeth am asesiadau stoc sydd ar gael, cynnyrch cynaliadwy mwyaf (MSY) a bioleg stoc ar gyfer y stociau unigol sydd dan sylw yn yr FMPau, a'r asesiad o'r wybodaeth hon.

**Rheoli Pysgodfeydd:** sy'n amlinellu camau rheoli presennol, y mesurau technegol presennol, yn ogystal â monitro, rheoli a gorfodi.

[5] Cyngor ICES ynglŷn â Hadog yn Ardal 7.a(Môr Iwerddon). Cyhoeddwyd 13 Tachwedd 2025

**Ystyriaethau Amgylcheddol:** sy'n ymdrin â'r dyletswyddau a'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd naturiol sy'n deillio o ddeddfwriaeth, y cyngor cadwraeth a ddatblygwyd a'r risgiau sy'n deillio o weithredu'r pysgodfeydd.

**Gweithredu a Monitro:** adran sy'n disgrifio'r broses weithredu ac sy'n datgan y bydd y broses o gyflawni'r polisïau a'r camau gweithredu yn yr FMPau dyfnforol yn cael ei monitro a'i hasesu yn erbyn cyfres o ddangosyddion i sicrhau bod y canlyniadau a'r camau gweithredu trosfwaol yn cyflawni nodau'r FMP a gofynion y Ddeddf yn effeithiol.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** sefydlwyd gweithgorau ar gyfer pob un o'r FMPau i gefnogi proses datblygu ar y cyd. Cyfrannodd y grwpiau hyn at ddrafftiau cynnar o'r FMPau a gwnaethant helpu i ffurfio'r nodau polisi a'r camau gweithredu. Cynhaliodd y grwpiau gyfarfodydd rhwng 2024 a mis Gorffennaf 2025, ac mae'r awdurdodau ar y cyd wedi cynnal diwygiadau dilynol i wella cysondeb ac eglurder wrth i FMPau eraill gael eu datblygu ledled y Deyrnas Unedig.

**Cwestiwn 1: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr adrannau cyffredin yn y naill neu'r llall o'r FMPau drafft?**

# Polisïau a chamau gweithredu ar gyfer rheoli pysgodfeydd Môr Iwerddon

Paratowyd yr FMPau i fodloni gofynion adran 6 y Ddeddf, y gofynion a amlinellir yn y JFS a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (y Rheoliadau SEA) i'r graddau eu bod yn berthnasol i ddyfroedd Cymru a Lloegr. Yn amodol ar yr ymgynghoriad a chyn eu cyhoeddi'n derfynol, bydd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu blaenoriaethu a bydd canlyniadau realistig a mesuradwy'n cael eu hamlygu. Mae pob polisi'n disgrifio'r canlyniad yr anelir ato, a'r camau gweithredu y bwriedir iddynt helpu i gyflawni'r amcanion hynny.

Ar gyfer pob polisi, mae'r FMP arfaethedig yn:

- amlinellu sail resymegol
- amlinellu camau gweithredu parhaus, tymor byr a/neu dymor hwy
- cysylltu'r camau gweithredu â chyflawni amcanion y pysgodfeydd.

Fe'ch cyfeirir at y nodau polisi a'r camau gweithredu hyn yn yr FMP perthnasol i'w hystyried pan fyddwch yn ymateb i'r cwestiynau ymgynghori isod.

## Stociau Dyfnforol ym Môr Iwerddon

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â'r pysgodfeydd dyfnforol (gwely'r môr) sy'n dal penfras, hadog, gwyniad môr, lleden chwithig, lleden goch a chimwch Norwy. Fel y nodwyd uchod, rhennir y cyfrifoldeb rheoli gyda'r Undeb Ewropeaidd ac ystyrir bod stociau penfras a gwyniad môr yn arbennig mewn cyflwr biolegol hirdymor gwael neu ddirywiol. Cyngor eleni ynglŷn â lleden chwithig, lleden goch ac, yn bwysig, y stoc cimwch Norwy gorllewinol (FU[6]15) yw gostwng dalfeydd. Ailddosbarthwd y cyngor ynglŷn â hadog yn gategori 5 o ganlyniad i wallau a amlygwyd yn yr asesiad ac mae'r cyngor yn cynnwys gostyngiad rhagofalus sylweddol.

Ochr yn ochr â'r ystyriaethau economaidd-gymdeithasol pwysig ar gyfer y pysgodfeydd hyn a chynnal gweithgarwch pysgota hyfyw, mae heriau parhaus ym Môr Iwerddon sy'n deillio o sut mae pysgota a gweithgareddau datblygu morol eraill, yn enwedig ffermydd gwynt alltraeth, yn rhyngweithio â rhywogaethau penodol a'r ecosystem ehangach.

Mae'r polisïau canlyniadol yn ceisio gosod amcanion rheoli ar gyfer pob stoc yn unol â'r Ddeddf ac ymgorffori rheoli pysgodfeydd yn y dull ehangach o reolaeth forol sydd wedi'i seilio ar ecosystem.

### Nodau polisi

Amlygir 6 nod polisi yn yr FMP

- Nod Polisi 1: Cywain y stoc lleden chwithig yn gynaliadwy, ar lefel sy'n gymesur â'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY).

- Nod Polisi 2: Cywain stociau penfras, gwyniad môr, hadog, lleden goch a chimwch Norwy yn gynaliadwy, gan gyfrannu at adfer a chynnal y biomas uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY.

- Nod Polisi 3: Helpu i werthuso'r effaith y mae datblygiadau eraill sy'n dylanwadu ar gynefinoedd morol yn ei chael ar stociau pysgod a fflydiau pysgota.

---

[6] Ystyrir bod Unedau Swyddogaethol yn ardaloedd asesu sydd ar wahân yn fiolegol ar gyfer cimwch Norwy

- Nod Polisi 4: Cefnogi rheolaeth gynaliadwy wedi'i seilio ar ecosystem trwy leihau effaith pysgodfeydd dyfnforol ym Môr Iwerddon ar yr ecosystem forol gymaint â phosibl.

- Nod Polisi 5: Cefnogi cynnydd tuag at bysgota cynaliadwy trwy gynyddu unrhyw fudd economaidd a chymdeithasol i'r eithaf.

- Nod Polisi 6: Lleihau effaith gweithgareddau pysgod ar y newid yn yr hinsawdd gymaint â phosibl a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

**Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y nodau polisi yn yr FMP dyfnforol drafft?**

**Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu posibl a amlygwyd o dan bob nod unigol?**

DRAFT

# FMP Pelagig Môr Iwerddon (Pennog)

Mae'r FMP drafft yn cynnig rheoli un math o stoc, sef pennog Môr Iwerddon (a ddiffinnir fel honno o fewn adran 7.a i'r Gogledd o 52°30'N). Mewn modd tebyg i'r stociau dyfnforol, mae'r stoc hon yn cael ei rheoli ar y cyd gyda'r Undeb Ewropeaidd, hefyd. Mae'n allweddol bwysig yn economaidd i ddiwydiant pelagig Gogledd Iwerddon a physgodfeydd bach hanesyddol y glannau.

Mae stociau pennog yn cymysgu rhywfaint rhwng ardaloedd stoc, ac mae hyn wedi cyflwyno nifer o broblemau i'r broses gynghori. O ran stoc Môr Iwerddon, ystyrir mai'r brif ffynhonnell cymysgu yw pysgod sy'n gysylltiedig â'r Môr Celtaidd. Ystyrir bod stoc y Môr Celtaidd mewn cyflwr biolegol gwael. Fe allai'r cymysgu hwn gymhlethu rheolaeth yn sgil dal stoc y Môr Celtaidd yn ddieisiau.

O ganlyniad, mae'r polisïau yn yr FMP hwn yn ceisio adfer y stoc a'i chynnal ar lefelau MSY neu'n uwch, ar yr un pryd â cheisio gwella'r asesiad a gwireddu'r buddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol gorau.

## Nodau polisi a chwestiynau

Mae 5 nod polisi yn yr FMP hwn:

- Nod Polisi 1: Cywain pysgodfa bennog Môr Iwerddon yn gynaliadwy, gan adfer biomas a'i gynnal uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY.

- Nod Polisi 2: Defnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i gefnogi penderfyniadau rheoli yn ymwneud â phennu cyfleoedd pysgota cynaliadwy.

- Nod Polisi 3: Cyflawni rheolaeth gynaliadwy ehangach trwy gymryd camau i leihau effaith pysgodfeydd pennog Môr Iwerddon ar yr ecosystem forol gymaint â phosibl.

- Nod Polisi 4: Cefnogi'r diwydiant pysgota i gyflawni buddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau gwledig ac arfordirol.

- Nod Polisi 5: Lleihau effaith gweithgareddau pysgota ar y newid yn yr hinsawdd gymaint â phosibl a chynorthwyo'r diwydiant pysgota i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

**Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y nodau yn yr FMP pelagig drafft?**

**Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu posibl a amlygwyd o dan bob nod unigol?**

## Gweithredu

Pan fydd y cynllun wedi'i gyhoeddi'n ffurfiol, bydd angen ei weithredu. Gwneir hyn fesul cam, a bydd DAERA yn gweithio'n agos gyda'r sector pysgota masnachol a hamdden a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu cynlluniau gweithredu.

Mae cyhoeddi'r FMPau yn cychwyn cylch amlflwyddyn, a byddant yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob chwe blynedd o leiaf. Yn ogystal, bydd yr adroddiad a baratoir ac a gyhoeddir bob 3 blynedd mewn perthynas â'r JFS o dan adran 11 y Ddeddf yn adrodd hefyd ar i ba raddau y gweithredwyd y polisïau a gynhwysir yn yr FMPau hyn.

Bydd pob nod polisi'n cynnwys camau gweithredu tymor byr a thymor hwy rhyngddibynnol ac mae'n bosibl y bydd angen sefydlu pwyntiau adolygu ar wahân ar gyfer camau gweithredu penodol. Disgwyliwn y bydd angen i gamau gweithredu gael eu mireinio ymhellach wrth i'r sylfaen dystiolaeth wella ar hyd oes yr FMPau.

Mae grwpiau trawsreoleiddiol, grwpiau'r llywodraeth a grwpiau diwydiant wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r FMPau drafft. Mae ymwneud gan randdeiliaid a chydweithio

parhaus yn sail i gyflawni'r FMPau yn llwyddiannus a bydd yn parhau y tu hwnt i'w cyhoeddi.

## Casgliad

I grynhoi, mae FMPau dyfnforol a phelagig Môr Iwerddon yn disgrifio'r mesurau rheoli presennol a'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu statws stociau dyfnforol (penfras, hadog, gwyniad môr, lleden chwithig, lleden goch a chimwch Norwy) a phelagig (pennog) o amgylch dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o Fôr Iwerddon yn 2026 er mwyn pennu lefel gynaliadwy o fanteisio arnynt. Mae pob FMP yn amlinellu polisïau a chamau gweithredu arfaethedig i reoli'r pysgodfeydd perthnasol yn gynaliadwy yn y tymor hir.

# Asesiadau Effaith

Trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, rydym hefyd yn ceisio safbwyntiau ar asesiadau effaith ategol, Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyfunol ar gyfer y ddau FMP ac Adroddiadau Amgylcheddol Asesiad Amgylcheddol Strategol unigol.

Mae rheoli pysgodfeydd wedi'i ddatganoli, a bydd y broses o weithredu deddfwriaeth newydd, rheoliadau gwirfoddol, codau ymarfer, canllawiau neu newidiadau polisi yn cael ei datblygu a'i hasesu gan awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol unigol, fel y bo'n briodol.

Mae pob awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau bod ei ofynion asesu ei hun yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Adroddiadau Amgylcheddol ar y cyd ar gyfer dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ar y cam ymgynghori gan nad yw'r cynigion, ar eu pen eu hunain, yn cyflwyno deddfwriaeth newydd, rheoliadau gwirfoddol, codau ymarfer, canllawiau na newidiadau polisi.

Felly, cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol i helpu i amlygu effeithiau economaidd posibl yr FMPau ar y sector pysgota a busnesau cysylltiedig. Asesiad naratif yw'r ddogfen hon ac nid yw'n cynnwys costau ariannol na chostau wedi'u meintioli i fusnesau.

Er bod yr FMP yn amlygu camau gweithredu posibl y gellid eu cyflwyno ar ôl cyhoeddi, bydd angen i'r cynigion unigol hyn gael eu datblygu ymhellach ac nid

ydynt yn cynnwys digon o fanylion ar hyn o bryd i gwblhau dadansoddiad economaidd llawn. Wrth i'r FMP gael ei weithredu, bydd angen i bob awdurdod gynnal asesiadau priodol ar gyfer unrhyw ymyriadau penodol.

**Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol sydd wedi'i atodi?**

# Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae'n ofynnol i DAERA, Llywodraeth Cymru a Defra ystyried effaith amgylcheddol unrhyw bolisi, cynllun neu raglen. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn amlinellu egwyddorion amgylcheddol i lywio'r broses o lunio polisïau. Dylai gweithgareddau a gynhelir yn rhan o ddatblygu'r FMPau ar y cyd gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, hefyd.

Mae'r FMPau hyn yn dod o fewn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau SEA 2004) oherwydd bod y rhychwant daearyddol yn ymestyn i ddyfroedd Cymru a Lloegr.

Mae'r Rheoliadau'n mynnu bod unrhyw gynlluniau, rhaglenni, a strategaethau cyhoeddus cymwys yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystod y broses o'u paratoi a chyn cyhoeddi os ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol (boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol) ar safle morol Ewropeaidd. Mae FMPau yn gynlluniau neu'n rhaglenni at ddibenion y rheoliadau hyn.

## Beth yw'r Adroddiad Amgylcheddol a sut y'i datblygwyd

Mae'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystyried effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol gweithredu'r polisïau a'r camau gweithredu a amlinellir yn yr FMPau dyfnforol a phelagig drafft ar gyfer Môr Iwerddon. Mae'r Adroddiadau Amgylcheddol yn amlinellu canfyddiadau'r broses hon.

Paratowyd Adroddiad Amgylcheddol gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar ran yr awdurdod cydlynu, sef DAERA, ar gyfer pob un o'r FMPau i fodloni gofynion Rheoliadau SEA 2004.

Mae'r adroddiadau'n disgrifio cyflwr presennol yr amgylchedd (y llinell sylfaen) ac effeithiau sylweddol tebygol y cynigion yn yr FMPau drafft ar y llinell sylfaen. Mae'r asesiad yn amlygu lle y gallai'r FMPau drafft gael effaith gadarnhaol ar y llinell sylfaen, ac felly ein hamgylchedd morol. Lle y gallai'r FMP gael effeithiau negyddol ar y llinell sylfaen, mae'r adroddiad yn awgrymu camau gweithredu i liniaru a/neu



DRAFT

fonitro'r effeithiau hyn. Llywiwyd y cwmpas a lefel y manylion trwy ymgynghori'n gynnar â'r cyrff ymgynghori statudol perthnasol: Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Is-adran yr Amgylchedd Hanesyddol (DAERA), Natural England, Cadw (Henebion Hanesyddol Cymru) a Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â chyngor pellach gan y JNCC, sy'n cynghori Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig ar gadwraeth natur ledled y Deyrnas Unedig. Defnyddiwyd gwybodaeth gyhoeddedig am gyflwr yr amgylchedd ac effaith bosibl pysgota ar nodweddion amgylcheddol, hefyd.

## Crynodeb o'r Adroddiadau Amgylcheddol

Cynhyrchwyd yr Adroddiadau Amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau SEA 2004).

Cynhwyswyd y materion canlynol (o Atodlen 2 paragraff 6 Rheoliadau SEA 2004) yn yr asesiad ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol gwely'r môr: Bioamrywiaeth, Ffawna, Flora, Daeareg, a gwaddodion (pridd), Dŵr, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, Tirwedd, a morlun.

Cynhwyswyd y materion canlynol (o Atodlen 2 paragraff 6 Rheoliadau SEA 2004) yn yr asesiad ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol pelagig: Bioamrywiaeth, Ffawna, Flora, Daeareg, a gwaddodion (pridd), Dŵr, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r adroddiadau'n asesu effeithiau sylweddol tebygol yr FMPau dyfnforol a pelagig drafft ar gyfer Môr Iwerddon ar y materion hyn.

Cynhaliwyd yr asesiadau yn erbyn llinell sylfaen a ddefnyddiodd, yn bennaf, dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ynglŷn â chyflwr yr amgylchedd morol a amlinellir yn Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig Rhan 1 wedi'i diweddaru, a gyhoeddwyd yn 2019. Defnyddiwyd ffynonellau ychwanegol o dystiolaeth i gadarnhau statws presennol yr amgylchedd mewn perthynas â materion, fel ffactorau hinsoddol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig. Ystyriwyd effaith hanesyddol gweithgarwch pysgota ar yr amgylchedd morol yn rhan o'r llinell sylfaen. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ffurfio barn addas am effeithiau amgylcheddol yr FMP drafft.

Mae effeithiau amgylcheddol presennol pysgota dyfnforol a phelagig ar y materion a gynhwyswyd yn yr asesiad hwn, o ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig, disgrifyddion Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig a'r amgylchedd ehangach, wedi cael eu cydnabod a'u hystyried yn yr adroddiad hwn. Mae'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr amgylchedd sy'n deillio o nodau polisi a chamau gweithredu arfaethedig y ddau FMP wedi cael eu hasesu'n unigol ac ar y cyd.

## Adroddiad Amgylcheddol yr FMP Dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon

Mae’r adroddiad hwn yn ystyried ac yn cydnabod effeithiau amgylcheddol presennol pysgota am hadog, penfras, gwyniad môr, lleden goch, lleden chwithig, a chimwch Norwy (*Nephrops norvegicus*) gan ddefnyddio offer llusg ac offer sefydlog ar y materion hynny a gynhwyswyd yn yr asesiad hwn, o ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig, disgrifyddion statws amgylcheddol da Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig ar gyfer yr amgylchedd morol ehangach, a ffactorau hinsoddol. Mae’r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr amgylchedd sy’n deillio o nodau polisi a chamau gweithredu arfaethedig yr FMP dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon wedi cael eu hasesu’n unigol ac ar y cyd, hefyd.

Mae’r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi dod i’r casgliad, y tu hwnt i’r effaith uniongyrchol ar y stociau targed, fod y bysgodfa’n effeithio ar yr amgylchedd morol ehangach trwy darfu ar wely’r môr (gan offer symudol gwely’r môr), yn bennaf. Cynigiwyd camau gweithredu i ymchwilio i’r effeithiau hyn a defnyddio’r dystiolaeth hon i ddatblygu strategaethau lliniaru cadarn. Mae’r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr amgylchedd sy’n deillio o nodau polisi a chamau gweithredu arfaethedig yr FMP dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon wedi cael eu hasesu’n unigol ac ar y cyd, hefyd. Amlygwyd cyfraniad pysgota dyfnforol at faterion sy’n gysylltiedig â’r newid yn yr hinsawdd a threftadaeth ddiwylliannol, trwy ddifrod strwythurol er enghraifft, fel effaith bosibl, hefyd.

Nid oedd yr asesiad wedi amlygu unrhyw effeithiau negyddol yn sgil nodau polisi a chamau gweithredu’r FMP sy’n achosi risg sylweddol i’r amgylchedd. Gellir datblygu’r nodau polisi, lle y bo’n briodol, i osgoi unrhyw effeithiau negyddol posibl a amlygwyd gan y broses asesu.

Mae’r asesiad yn argymell y canlynol:

- Dylai fersiynau o’r FMP dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon yn y dyfodol ystyried sut gallant ddatblygu treftadaeth ddiwylliannol pob pysgodfa a sut gall rheoli pysgodfeydd gyfrannu at leihau rhyngweithiadau negyddol posibl ag asedau treftadaeth forol.
- Dylai fersiynau o’r FMP dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon yn y dyfodol ystyried sut gall rheoli pysgodfeydd gyfrannu at leihau rhyngweithiadau negyddol posibl â thirweddau cynhanesyddol boddedig neu forluniau.
- Byddai’r FMP dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon yn elwa o ddarparu manylion mwy penodol ynglŷn â sut bydd yr FMPau yn rhyngweithio â Chynlluniau Morol. Byddai nodi sut gallai’r FMPau ryngweithio â’r rhaglen hon yn gadarnhaol neu’n negyddol yn gwella’r asesiad ar y cyd.

Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried mewn fersiynau o’r cynllun yn y dyfodol.

DRAFT

**Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effeithiau amgylcheddol a amlinellir yn yr adroddiad amgylcheddol ar gyfer FMP dyfnforol Môr Iwerddon drafft?**

## Adroddiad Amgylcheddol yr FMP Pelagig ar gyfer Môr Iwerddon

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried ac yn cydnabod effeithiau amgylcheddol presennol pysgota am bennog gan ddefnyddio treillrwydi pelagig, rhwydi drifft, a rhwydi drysu wedi'u gosod ar wely'r môr ar y materion hynny a gynhwyswyd yn yr asesiad hwn, o ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig, disgrifyddion Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig, a'r amgylchedd ehangach. Mae'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr amgylchedd sy'n deillio o nodau polisi a chamau gweithredu arfaethedig yr FMP pelagig ar gyfer Môr Iwerddon wedi cael eu hasesu'n unigol ac ar y cyd, hefyd.

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol hwn wedi dod i'r casgliad, y tu hwnt i'r effaith uniongyrchol ar y stociau targed, fod y bysgodfa'n effeithio ar yr amgylchedd morol ehangach trwy sgil-ddal rhywogaethau dieisiau / gwarchodedig (mewn rhwydi sefydlog) a lleihau ysglyfaeth, yn bennaf. Amlygwyd bod cyfraniad sbwriel pysgota yn effaith bosibl sy'n gysylltiedig â physgota am bennog. Mae effaith pysgota am bennog mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael ei rheoli yn y parth 0-12 môr-filltir yn nyfroedd Gogledd Iwerddon a dyfroedd Lloegr. Mae rheolaeth mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig y tu hwnt i'r terfyn 12 môr-filltir yn cael ei datblygu. Amlygwyd cyfraniad pysgota am bennog at faterion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a sut mae'n rhyngweithio â threftadaeth ddiwylliannol, trwy ddifrod strwythurol er enghraifft, fel effeithiau posibl, hefyd.

Nid oedd yr asesiad o effeithiau negyddol tebygol wedi amlygu unrhyw effeithiau negyddol a oedd yn achosi risg sylweddol i'r amgylchedd. Gellir datblygu'r nodau polisi a'r camau gweithredu, lle y bo'n briodol, i osgoi unrhyw effeithiau negyddol posibl a amlygwyd gan y broses asesu. Bydd yr effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o weithredu nodau polisi a chamau gweithredu'r FMP pelagig ar gyfer Môr Iwerddon yn cael eu monitro hefyd i amlygu effeithiau niweidiol annisgwyl yn gynnar, fel y gellir cymryd camau adferol priodol.

Argymhellodd yr asesiad y canlynol:

- Dylai fersiynau o'r FMP pelagig ar gyfer Môr Iwerddon yn y dyfodol ystyried sut i ddatblygu treftadaeth ddiwylliannol pob pysgodfa.
- Byddai'r FMP pelagig ar gyfer Môr Iwerddon yn elwa o ddarparu manylion mwy penodol ynglŷn â rhaglenni cenedlaethol a rhaglenni'r Deyrnas Unedig ar gyfer lleihau sbwriel morol a sut mae'r FMP hwn yn cyfrannu at y rhaglenni hynny.
- Byddai'r FMP pelagig ar gyfer Môr Iwerddon yn elwa o ddarparu manylion mwy penodol ynglŷn â sut bydd yr FMP yn rhyngweithio â Chynlluniau Morol.

Byddai nodi sut gallai'r FMP ryngweithio â'r rhaglen hon yn gadarnhaol neu'n negyddol yn gwella'r asesiad ar y cyd.

Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried mewn fersiynau o'r cynllun yn y dyfodol.

**Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effeithiau amgylcheddol a amlinellir yn yr adroddiad amgylcheddol ar gyfer FMP pelagig Môr Iwerddon?**

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl y dyddiad cau, bydd yr holl ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u hystyried, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael. Bydd crynodeb o'r ymatebion ar gael ar wefan DAERA. Bydd rhestr o'r ymatebwyr yn cael ei chyhoeddi lle y rhoddwyd caniatâd i ni wneud hynny.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r polisïau a'r camau gweithredu yn yr FMPau terfynol. Bydd yr FMPau terfynol yn cael eu cyhoeddi gan DAERA.

## Sut i ymateb

Fe'ch gwahoddir i rannu eich safbwyntiau yn uniongyrchol ar-lein trwy'r wefan Citizen Space. Fel arall, os hoffech ddarparu ymateb ysgrifenedig drwy'r e-bost neu'r post, defnyddiwch y cyfeiriadau isod. Mae ffurflen ymateb i'w defnyddio ar gyfer e-bost a chopi caled ar gael ar y wefan Citizen Space.

Mae tair rhan i'r arolwg ymgynghori:

1. Manylion personol a chyfrinachedd (gofynnol)

2. Cwestiynau ar y ddau FMP drafft, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Adroddiad Amgylcheddol.

3. Adborth ymgyngoreion ar yr arolwg ar-lein (gofynnol)

Nid oes rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau, ond mae'n rhaid i chi gwblhau'r adran manylion personol a chyfrinachedd.

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn gwneud hynny fel unigolyn neu'n cynrychioli safbwyntiau sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, eglurwch bwy mae'r

sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n berthnasol, sut y casglwyd safbwyntiau ei aelodau.

Mae fersiynau hygyrch o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig at: E-bost: **FMPs@daera-ni.gov.uk**

neu drwy'r post at:
**Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd**
**Is-adran y Môr a Physgodfeydd**
**Rathkeltair House**
**Market Street**
**Downpatrick**
**Co Down**
**BT30 6AJ**

## Amseru a hyd yr ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar **30 Gorffennaf 2026 ac yn cau ar 21 Hydref 2026**.

## Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol ynglŷn â'r FMPau hyn, cysylltwch â'r canlynol: Fmps@daera-ni.gov.uk

DRAFT

# Atodiad A – Cwestiynau Ymgynghori

**Cwestiwn 1: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr adrannau cyffredin yn y naill neu'r llall o'r FMPau drafft?**

**Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y nodau polisi yn yr FMP dyfnforol drafft?**

**Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu posibl a amlygwyd o dan bob nod unigol?**

**Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y nodau yn yr FMP pelagig drafft?**

**Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu posibl a amlygwyd o dan bob nod unigol?**

**Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol sydd wedi'i atodi?**

**Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effeithiau amgylcheddol a amlinellir yn yr adroddiad amgylcheddol ar gyfer FMP dyfnforol Môr Iwerddon drafft?**

**Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effeithiau amgylcheddol a amlinellir yn yr adroddiad amgylcheddol ar gyfer FMP pelagig Môr Iwerddon?**

DRAFT